


Ein cyf: NB/CV

Gofynnwch Chris Vinestock
am:

 01656 641173

Dyddiad: 21 Hydref 2021

 Chris.Vinestock@
@ombwdsmon.cymru

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

**Trwy Ebst yn unig
SeneddFinance@senedd.wales**

Annwyl Mr Owen Griffiths

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Amcangyfrifon 2022/23

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Hydref yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o'n Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar gyfer 2020/21 a'n Hamcangyfrif ar gyfer 2022/23. Rwyf yn hapus i egluro ein cyflwyniad ac ymateb i'ch pryderon.

Costau staff cynyddol

Mae'r gwasanaeth a ddarperir gennym yn wasanaeth sy'n seiliedig ar bobl a buom yn gweithio i arbed arian i leihau costau nad ydynt yn gostau staff, lle y gallwn, fel y gallwn wneud y mwyaf o adnoddau staff i ymdrin â phwysau ein llwyth gwaith cwyntion. Mae'n anochel y bydd hyn, ynghyd â symud i ddibynnu ar staff mewnol yn hytrach na chontractwyr (e.e. ar gyfer gwasanaethau cyfieithu a chymorth adnoddau dynol) yn cynyddu ein gwariant ar staff wrth gymharu un flwyddyn â'r llall. Hefyd, mae ein graddfeydd cyflog yn cynnwys dilyniant cynyddrannol blynyddol nes bod staff yn cyrraedd brig y raddfa, felly mae cadw staff yn golygu y bydd costau cyflog yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, p'un a oes dyfarniad cyflog ai peidio.


Mae'r llythyr yn cyfeirio at gynnydd yng nghostau staff rhwng cyllideb **2020/21** ac Amcangyfrif **2021/22** a gyflwynwyd ym mis Medi 2020. Roedd cynnydd o £96,000 (2.5%) ac rydych yn cyfeirio at ddyfarniad cyflog Ebrill 2020, sef 2.75%, a oedd yn bwydo i mewn i hyn.

Tudalen o 1

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru / Public Services Ombudsman for Wales, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombwdsmon.cymru / www.ombudsman.wales

 01656 641150

 01656 641199

 holwch@ombwdsmon.cymru / ask@ombudsman.wales

Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio / All calls are recorded for training and reference purposes

Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi. Mae ein holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh. This will not lead to a delay. All our documents are available in both Welsh and English

Ym mis Medi 2020, roedd chwyddiant mynegai prisiau defnyddwyr oddeutu 0.5% a phryd hynny (ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn) roedd disgwyl y byddai cyflogau'r sector cyhoeddus yn rhewi. Pan gyflwynasom ein Hamcangyfrif ar gyfer 2021/22, roeddem yn rhagweld efallai na fyddai dyfarniad cyflog, a phe bai un, y byddai'n swm bach ac felly y gellid ei gyflawni o arbedion. Fel y dywedasom, y cynnig cyfredol gan gyflogwyr llywodraeth leol yw 1.75% - gwrthodwyd hyn gan undebau llafur ond mae'n ymddangos yn debygol felly y bydd dyfarniad cyflog o leiaf 1.75%. Mae'r Amcangyfrif ar gyfer 2022/23 yn rhagweld y bydd rhan o hyn (1%) yn cael ei fodloni trwy arbedion, gan geisio'r gweddill fel cynnydd mewn adnoddau. O edrych yn ôl, dylid bod wedi gwneud y bwriad i gyflawni'r dyfarniad cyflog o arbedion yn fwy amlwg, yn hytrach na mynegi hynny fel absoliwt, a byddwn yn cadw hynny mewn cof wrth gyflwyno yn y dyfodol.

Llwyth gwaith

Mae meysydd ymdrin â chwynion ac ymchwilio ein gwasanaeth yn adweithiol ac mae niferoedd yr achosion sy'n dod i mewn y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol. At ddibenion cyllidebu a chynllunio, rydym yn edrych i'r dyfodol ac yn cynnwys ein hamcangyfrif o lwyth gwaith pan rydym yn cyflwyno i'r Pwyllgor.

Ym mis **Medi 2020** gwnaethom amcangyfrif y byddwn yn derbyn 7,936 o ymholiadau a chwynion yn 2021/22 a gwnaethom ddiwygio'r amcangyfrif hwnnw ym mis Medi **2021** i 7,919, yng ngoleuni hanner cyntaf y flwyddyn. Er mai amcangyfrif yw hwn o hyd, mae'r ffigur diwygiedig yn adlewyrchu profiad eleni hyd yn hyn. Mae'r dadansoddiad yn dangos cynnydd sylweddol yn y cwynion Cod Ymddygiad a gostyngiadau bach yn ymholiadau a chwynion cyrff cyhoeddus.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol, gwnaethom ailedrych ar ein rhagolwg o gwynion ac ymholiadau yng ngoleuni llwythi gwaith **gwirioneddol** 2020/21, ac rydym yn rhagweld 7,200 o gwynion ac ymholiadau ar gyfer y flwyddyn 2021/22. Mae'r tabl ar dudalen 7 ein Hamcangyfrif yn dangos hyn, ond mae hefyd yn dangos ein rhagolwg diweddaraf o 7,919. Bellach, ein rhagolwg yw 7,919, sydd 10% yn fwy na'r hyn a ragwelwyd gennym ar 1 Ebrill 2021, ond yn debyg i'n rhagolwg ym mis Medi 2020. Fodd bynnag, mae 28% yn fwy na nifer gwirioneddol 2020/21, sef y gymhariaeth a ddefnyddiwyd gennym yn y gorffennol. Ychwanegwyd colofn ar gyfer Cyllideb 2021/22 oherwydd y gwahaniaeth eleni rhwng y gyllideb ariannol a'n rhagolwg ariannol, ond byddaf yn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflwyno'n gliriach yn fy Nghyllideb ddiwygiedig.

Rydych yn gofyn yn benodol ynglŷn â sut mae'r rhagolygon hyn yn effeithio ar yr adnoddau a geisir ar gyfer 2021/22 a 2022/23. Yn ein Hamcangyfrif 2021/22, ym mis Medi 2020, gwnaethom ragweld 7,936 ac rydym bellach yn rhagweld 7,919 o ymholiadau a chwynion. Nid yw'r gwahaniaeth o 17 yn berthnasol o ran yr adnoddau a geisir ar gyfer 2021/22. Byddwn yn ychwanegu nad yw'r adnoddau ychwanegol a geisir gennyf eleni trwy Gyllideb Atodol yn gysylltiedig â llwyth gwaith, ond yn hytrach â diogelwch, perfformiad a gwytnwch TG ac â'r dyfarniad cyflog y cyfeirir ato uchod.

Ar gyfer y flwyddyn nesaf (2022/23), rwy'n rhagweld cynnydd pellach o 10% yn y llwyth gwaith ac rwy'n ceisio cyllid ar gyfer dau aelod o staff ychwanegol. Er mai amcangyfrifon yw'r rhagolygon llwyth gwaith ar gyfer 2022/23, maent yn seiliedig ar lefelau cyfredol ac ar wybodaeth gan gyrrff cyhoeddus ynghylch y tueddiadau y maent yn eu profi. Byddaf yn diwygio'r Amcangyfrif yn unol â chais y Pwyllgor ond rwy'n fodlon bod llwyth gwaith cyfredol a rhagolwg yn cyfiawnhau'r adnoddau a geisir yn y cyflwyniad diwygiedig.

Rwy'n parhau i fod yn ddiolchgar iawn i'r Senedd ac i'r Pwyllgor Cyllid am y gefnogaeth a roddir i'm swyddfa. Byddwn yn croesawu'r cyfle i gwrdd â chi a'ch ymchwilyr i ddweud mwy wrthyf am ein gwaith, ein cyllid a'n gweithrediadau. Rhowch wybod i mi a fydddech chi'n hapus i gwrdd, yn y Senedd neu yn ein swyddfeydd.

Byddwn yn cyflwyno Amcangyfrif diwygiedig erbyn 29 Hydref, a byddwn yn ymateb yn ffurfiol i argymhellion y Pwyllgor pan fyddwn yn eu derbyn. Yn y cyfamswr, rhowch wybod i mi os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir



Nick Bennett
Yr Ombwdsmon